

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Hybrid 27/06/2023 7:00yh

John Brinley Jones (Cad) Hywel James Sinclair Evans Gwenllian Davenport Hughes  
Greta Hughes William Roger Jones Ian Goronwy Williams Alan Harper-Smith  
Thomas Victor Jones Ann Llwyd (Cyfieithydd) Carys Jones (Clerc)

### **1. Ymddiheuriadau**

David Andrew Parry

Adroddodd Alan Harper-Smith fod Patricia Hope- Whitney wedi cyflwyno llythyr o ymddiswyddiad gan ei bod yn methu mynychu oherwydd ymrwymadau eraill. Penderfynwyd a chytunwyd gan bawb i dderbyn ei hymddiswyddiad. O ganlyniad, mae dwy a seddi gwag yn awr. Gan fod y drefn o ethol aelodau newydd, penderfynwyd y bydda'r clerch yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi am y rheolau newydd.

### **2. Croesawu'r Clerch Newydd**

Croesawodd y Cadeirydd y Clerch newydd sef Carys Jones i'r cyfarfod. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod hefo'r Clerch yr wythnos flaenorol i fynd trwy rhai o ddogfennau a ffeiliau.

### **3. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Cynigwyd fod y Cadeirydd presennol yn parhau yn ei rôl fel cadeirydd. Cytunodd John Brinley Jones i aros ymlaen fel Cadeirydd am y tro, gan fod y Clerch yn newydd.

Cynnig: Hywel James Sinclair Evans Eilio: William Roger Jones

Cynigwyd fod Andrew yn parhau fel Is-gadeirydd.

Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: Gwenllian Davenport Hughes.

Cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

### **4. Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Polisi Protocol Damweiniau, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risg, Cód Ymddygiad Aelodau, Trefn Cwyno a Rhestr Asedau.**

Pwynt 24 Rheolau Sefydlog - Cytunwyd fod y rhan fwyaf o'r rheolau yn iawn, ond fod angen adolygu pwynt 24. Cynigwyd i adolygu'r pwynt yma yn ôl y wybodaeth a dderbynnir gan Gyngor Gwynedd.

Mae angen newid pwynt 3.1 hefyd – newid o ddydd Llun olaf y mis i ddydd Mawrth olaf y mis.

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod ym misoedd Awst a Rhagfyr.

Cynnig: Ian Goronwy Williams

Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

# Cofnodion Cyfarfod Hybrid 27/06/2023 am 7yh

## 1. Ymddiheuriadau

Fel y nodwyd uchod

## 2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol

John Brinley Jones – eitem 3.2

### 2(A) Cofnodion Pwyllgor 30/05/23

Diolchodd y Cadeirydd i Gwenllian Davenport Hughes am gymryd munudau'r cyfarfod diwethaf.

## 3. Derbyd Cofnodion Cyfarfod 30 Mai 2023

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: William Roger Jones

Eilio: Hywel James Sinclair Evans

## 4. Unrhyw Fater Brys

### 1. Parcio ger y Gali

Codwyd y mater yma gan Alan Harper Smith. Mae o wedi trafod y mater yma gyda'r Adran Briffyrdd a chytunwyd fod parcio anghyfreithlon yn y pentref yn broblem, yn arbennig pe bai'r gwasanaethau brys angen cael mynediad i'r traeth. Mae'r Adran Briffyrdd wedi awgrymu bocsió'r ardal yma gan fod cymaint o bobl yn anwybyddu'r llinellau melyn dwbl. Dim gwrthwynebiad i hyn o ran egwyddor. Cytunodd Alan Harper Smith i anfon copi o'i e-bost at y Clerc gyda manylion y person cyswllt i gefnogi'r cynllun hwn. Ar ôl derbyd y wybodaeth, bydd y clerch yn ysgrifennu at yr Ardan Briffyrdd.

### 2. Arddangosfa Berwyn Jones

John Brinley Jones wedi datgan buddiant ac wedi ac wedi gadael yr ystafell.

Mae Plas Glyn y Weddw wedi gofyn am gefnogaeth ariannol tuag ar Arddangosfa Berwyn Jones. Cynigwyd cyfraniad o £500 yn y cyfarfod diwethaf. Cynigiodd Hywel James Sinclair Evans os oedd pawb yn fodlon, i gyfrannu'r swm yma. Nododd Greta Hughes fod yr egwyddor o gyfrannu'n iawn, ond ei bod hi'n teimlo fod y swm braidd yn uchel. Cynigwyd cyfraniad o £250.

Cynnig: Greta Hughes

Eilio: Alan Harper Smith

Cytunodd Hywel James Sinclair Evans fynd hefo barn y mwyafrif.

Cytunwyd i gyfrannu £250 at Arddangosfa Berwyn Jones

Daeth y Cadeirydd yn ôl i'r ystafell a chroesawodd Thomas Victor Jones i'r cyfarfod.

## 5. Llythyr "O Ddrws i Ddrws"

Adroddwyd gan y Cadeirydd ei fod wedi derbyd e-bost gan Wil Parry (Rheolwr Prosiect). Yn ôl Mr Parry mae mantolen "O Ddrws i Ddrws" yn gymharol iach gyda nifer o grantiau wedi eu talu ymlaen llaw, felly nid ydynt yn mynd ar ofyn Cynghorau Cymuned eto eleni.

Derbyniwyd y wybodaeth ac awgrymwyd fod y Clerc yn anfon e-bost at “O Ddrws i Ddrws” yn cydnabod ac yn cefnogi cyfraniad yr elusen i drigolion lleol.

## **6. Llwybrau**

Mae amryw o bobl wedi bod yn cwyno am gyflwr y llwybrau – angen eu strimio a’u barbio. Adroddwyd gan y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu á Osian Glyn Parry sydd yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd. Cytunwyd fod angen eglurder ynglŷn á faint o doriadau a pha bryd mae’r gwaith i gael ei wneud. Awgrymwyd cael contract mwy hyblyg ac eglurder ynglŷn â’r gwaith yn yr afon, i’w chadw’n glir.

Mae’r llwybr o’r ysgol yn rhy gul ac mae’n anodd iawn ei dorri. Mae hyn wedi cael ei godi o’r blaen. Cytunwyd i gysylltu eto gyda Llwybrau Gwynedd er mwyn cael diweddariad.

Adroddwyd gan Ian Goronwy Williams fod rhedyn wedi tyfu’n ofnadwy ac fod angen ei dorri. Adroddwyd ymhellach fod Tîm Tacluso Ardal yn dod i Lanbedrog dydd Gwener 30/06/23 i dwtio, torri ochr y lôn a chlirio sbwriel.

## **7. Y Fynwent Newydd**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod rhan o’r wal wedi cael ei drwsio ond nid yw’r gwaith wedi cael ei gwblhau. Mae angen ail osod rhai o’r cerrig. Adroddodd y Cadeirydd ymhellach ei fod yn aros i glywed gan Glyn (Adran Gynllunio), i drefnu cyfarfod ar y safle. Gofynnodd Greta Hughes oes yna unrhyw bosibilrwydd cael lleoliad arall? Cytunwyd i roi’r mater yma ar agenda’r cyfarfod nesaf.

## **8. Cae Chwarae**

Adroddwyd fod Rhys wedi bod yn torri rhan o’r cae chwarae mae o i fod i’w dorri. Adroddwyd gan Greta Hughes fod nifer o drigolion lleol yn bryderus fod cymaint o olwg ar y cae chwarae a’r diffyg offer sydd yno i’r plant. Bydd y Clerc yn cysylltu ag Alaw Ceris i’w hysbysu fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion lleol sydd yn bryderus am gyflwr y cae chwarae ac i holi pwy sydd yn gyfrifol am dorri’r gwair? Adroddwyd fod Barbara Warren ar bwyllgor y Cae Chwarae. Cytunwyd i wahodd Barbara Warren i’r cyfarfod nesaf i weld beth ellir ei wneud ynglŷn â hyn.

## **9. Neuadd y Pentref**

Adroddwyd fod Hywel James Sinclair Evans am gael golwg ar asesiad risg tân. Adroddwyd hefyd fod y toiledau wedi blocio a bod angen i Felin Plas Du roi camera i lawr y dreiniau ger ochr y Neuadd. Nodwyd mai hen beipen bridd sydd yno ac y bydd angen cael adeiladwyr ar y safle yn ystod gwyliau’r haf, pan fydd yr Ysgol Feithrin ddim yn defnyddio’r adeilad.

## **10. Unrhyw fater arall**

### **(1) Potiau Blodau**

Cafwyd trafodaeth am botiau blodau yn y pentref. Codwyd y mater fod tri phot ger y siop. Cynigwyd os nad y siop oedd piau’r rhain fod y Cyngor Cymuned yn edrych ar eu holau a gofyn yn garedig staff y siop eu dyfrio.

Adroddodd William Roger Jones fod pedwar pot hyfryd ym maes parcio Glyn y Weddw. Cynigwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Martin Cook i ddiolch iddo am yr arddangosfa. Cynigwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Paula Parry hefyd a Sue Bigford i ddiolch iddynt hwythau hefyd am arddangosfa flodau ym Mhentref Llanbedrog.

### **(2) Newid Banc**

Adroddodd y cadeirydd ei fod wedi trosglwyddo o Lloyds TSB i Nat West

### **(3) Lôn Pin Solar Ltd**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn e-bost gan Dr Chris Bale o Lôn Pin Solar yn cynnig cyfraniad o £2.500 am gael rhoi paneli solar yn yr ardal. Adroddwyd ymhellach fod y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn hybu hyn, er mwyn i gymunedau elwa a chael budd o hyn. Mynegodd Alan Harper-Smith ei wrthwynebiad, oherwydd ei fod ar dir ffermio. Nododd mai 7 acer o dir fyddai'n cael ei ddefnyddio'n wreiddiol ond byddai posibilrwydd y byddai mwy o aceri'n cael eu defnyddio yn y dyfodol. Holodd Greta Hughes pa path o gytundeb ydi o? Adroddwyd fod y cais cynllunio yn cael ei drafod ar 28ain o Fehefin. Derbyniwyd y wybodaeth a chytunwyd i drafod y mater yma ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

### **Taliadau i'w Cymeradwyo**

<b>Ann Llwyd</b> – Cyfieithydd	£220.45
Cyngor Gwynedd	£95.00
Archwilio Cymru	£336.00

### **Taliad i Mewn**

G Owen – Agor Bedd	£160
--------------------	------

### **Ceisiadau Cynllunio**

**C23/0476/38/DT** Estyniad unllawr cefn Ynyd ac ymestyn ffenest gromen:  
Rhoslyn Ffordd y Glyn, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd LL53 7TN.  
Dim gwrthwynebiad gan na fydd hyn yn amharu ar neb.

Adroddodd y Cadeirydd fod cais arall wedi dod i law heddiw:  
Trigfa, 1 William's Place, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd.  
Dim gwrthwynebiad gan ei fod yn gymharol â'r eiddo drws nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 18 o Orffennaf 2023**